



Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS WENER 13 HYDREF 2017 AM 7.30 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD HYDREF 2017

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol gan gynnwys dau aelod o'r cyhoedd, Mr & Mrs Colin Larelli.

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Cyng Karine Davies, Manon James, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Arwel Jones, Alun Owen, June Owens a Cyng Gary Rees

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng Catherine Hughes & Cyng Rhydian Wilson.

3. **MATERION PERSONOL**

Dim i'w gofnodi.

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**

Neb

5. **CADARNHAU COFNODION 7 MEDI 2017**

Diolchodd y Cadeirydd i Cyng Gwilym Jenkins am gadeirio'r cyfarfod diwethaf yn ei habsenoldeb.

Cynnig: Cyng Ann Jones

Eilio: Cyng Alun Owen

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

6.1 Ni dderbyniwyd sticeri'r Cyngor Tref oddi wrth Nerys Williams hyd yma.

6.2 Trosglwyddwyd ffurflenni gwneud arolwg ar y parc i Cyng Gary Rees.

6.3 Clerc wedi ymchwilio fewn i brynu rwyber pwrpasol i ddodi rhwng y matiau rwyber yn y parc yn TTS Tregaron, Travis Perkins a Jewson ond ddim yn gwerthu. Clerc i gysylltu â Adrian Davies i wneud y gwaith angenrheidiol.

6.4 Cyng June Owens i gysylltu â Mr Aled Jones, 4 Maesyrawel am bris i wneud sedd newydd ar gyfer y ceffyl siglo bach yn y parc.

6.5 Diolchwyd i Cyng June Owens am wneud y cacennau ar gyfer y noson hyfforddiant ar 18 Medi 2017 yn y Neuadd Goffa.

6.6 Gwaith ar ddiweddarau'r gwefan wedi'u ddechrau. Soniwyd bod angen i rywun gyfieithu'r cofnodion i'r Saesneg i'w doddi ar y gwefan. Gofynnir i'r Clerc gysylltu â Thechnoleg Taliesin am gyngor i roi app cyfieithu ar y gwefan i osgoi cyfieithu o flaen llaw.

6.7 Cyfarfod agored wedi'u drefnu ar gyfer nos Lun 16 Hydref 2017 i ddiweddarau'r cyhoedd am sefyllfa'r Ganolfan Hamdden.

6.8 Dim gweithrediad ar dorri'r clawdd ar y dde lawr am y ffordd cyn dod i Fferm Argoed, Heol Llanddewi Brefi.

6.9 Llystyfiant ar hyd 'Gypsy Lane' wedi'u torri gan Haydn Lewis.

6.10 Derbyniwyd braslun o'r costau i adnewyddu'r arwyddion glas i mewn i Dregaron oddi wrth Tom Delph-Janiurek, Cyngor Sir Ceredigion ond ni ellir rhoi amcan bris pendant nes bod y gwaith darlunio/argraffu wedi'u wneud. Trafodwyd y mater a chytunwyd i ofyn i'r Gweithiwr Strydlun ei glanhau yn gyntaf ac asesu'r arwyddion yn dilyn hyn.

CADEIRYDD

- 6.11 Cytunwyd i ofyn i Jason Hockenhull rhoi mainc ar ddiwedd y wal sy'n mynd lan rhiw Blaencaron ar ddechrau'r Gwanwyn ac nid yn y wal fel y soniwyd yn wreiddiol.
- 6.12 Clerc wedi cysylltu â chwmni Zurich am yr adroddiad a dderbyniwyd ar y parc a derbyniwyd cadarnhad ni ddylai'r arolwg wedi cymerid lle gan nad oedd ganddom contract ganddynt bellach ond bod y contract gyda Play Safety Ltd sydd yn gwneud arolwg ar y parc yn flynyddol ym mis Mehefin.
- 6.13 Cytunwyd i gynnal cyfarfod 10fed o Dachwedd 2017 am 6yh ond bod angen i Ms Sue Darnbrook fod yno'n bersonol i ateb consens am y prosiect Cylch Caron ac i gadarnhau bod cyfleusterau'r ganolfan dydd ac yn y blaen yr un peth sydd mewn bodolaeth ym Mryntirion ar hyn o bryd.
DATGAN DIDDORDEB: Cyng Manon W James
- 6.14 Trafodwyd enwebu cynrychiolydd cynllun llifogydd cymunedol i fod yn bwynt cyswllt efo Cyfoeth Naturiol Cymru. Cynigwyd enw Mr Eifion Davies gan Cyng Arwel Jones ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Jenkins, cytunwyd i Cyng Alun Owen ymweld a thrafod efo Mr Eifion Davies.
- 6.15 Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Mr Simon Crowe ei fod wedi torri'r cloddiau ond yn mynd i asesu'r coed pan fyddai wedi dychwelyd o'i wyliau yn Ffrainc.
- 6.16 Cyngor Sir wedi glanhau'r gwteri ar gyffordd lan am Nantcoy.
- 6.17 Cywiriad i gofnodion 13 Hydref 2017 i'w nodi mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd oedd wedi cymeradwyo'r cais, a ddaeth i law dros cyfnod yr haf, i gefnogi cadw Bodlondeb ar agor a nid pwyllgor y Cyngor Tref.

7. **CYFRIFON**

- 7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun £149.90
- 7.2 Cyflog Clrc £237.60
- 7.3 HMRC £132.00
- 7.4 D Benjamin £580.00
- 7.5 Swyddfa Archwilio Cymru £246.50
- 7.6 Nodwyd pwyntiau a godwyd gan yr archwilwyr allanol ynglŷn ag amseru'r archwiliad mewnol, angen i'r datganiadau'r banc gynnwys 31 Mawrth, angen cadw'r gofrestr unigol ar gyfer datgan buddiannau aelodau ac angen mabwysiadu'r côd ymddygiad yn flynyddol.
Derbyniwyd yr uchod ar gynnig Cyng Arwel Jones ac eiliwyd gan Cyng Alun Owen.
- 7.7 Trafodwyd cyfrif banc y Cadeirydd a chytunwyd i beidio â throsglwyddo arian iddo am y tro gan fod yna dipyn ynddo ar y foment ar gynnig Cyng Ann Jones ac eiliwyd gan Cyng June Owens.

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gerwyn Jones am waith Mr Noel Jones dros y tywydd eira yn ystod y Gaeaf drwy gadarnhau ni fyddai graenu a chlanhau'r palmentydd yn dod o dan ddyletswyddau'r gweithiwr strydlun.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cynhelir cyfarfod brys i drafod cais cynllunio A170414 Pencefn Drysgol ar 27 Medi 2017 lle anfonwyd ymateb i'r Cyngor Sir yn dilyn y cyfarfod.

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

Dim i'w gofnodi.

12. **UN LLAIS CYMRU**

- 12.1 Cynhelir cyfarfod pwyllgor ardal Un Llais Cymru ar 18 Hydref 2017 am 7yh ym Mhenmorfa – Cadeirydd i fynychu.

13. **CINIO BLYNYDDOL**
Trafodwyd cynnal cinio blynyddol ac i benderfynu ar ddyddiad cyfleus yn y cyfarfod nesaf.
14. **GOHEBIAETH**
- 14.1 Llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol wedi’u dderbyn oddi wrth Mrs Elizabeth Jones, Trysorydd Y Barcud.
- 14.2 Cylchredwyd e-bost oddi wrth Daniel Mosley, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynglŷn ag ymgynghoriad: canllaw i brif gynghorau a gofynnir i’r Cynghorwyr i ddod a’i sylwadau i’r cyfarfod nesaf. Dyddiad cau’r ymgynghoriad 21 Rhagfyr 2017.
- 14.3 Llythyr o ddiolch wedi’u dderbyn o aelodau Canolfan y Barcud am y rhodd ariannol.
- 14.4 Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Bwyllgor gwella Tref Aberaeron i brynu cerbyd ymatebydd brys newydd – gwrthodwyd y cais.
- 14.5 E-bost wedi’u dderbyn oddi wrth Dafydd Wyn Morgan, Clwb Cerdded Tregaron yn gwahodd Cadeirydd y Cyngor neu Gynghorydd i ymuno a’r Clwb cerdded mewn un daith gerdded flynyddol o 2018 – enwebwyd Cyng Gwilym Jenkins.
15. **UNRHYW FATER ARALL**
- 15.1 Cais wedi’u dderbyn oddi wrth Cyng Karine Davies am unrhyw orchmynion sefydlog oedd mewn lle gan y Cyngor Tref. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Tref ar yr ail ddydd Gwener yn y mis.
- 15.2 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth PCSO John Evans am ddigwyddiadau yn Nhregaron dros y misoedd diwethaf.
- 15.3 Soniwyd bod y pwll nofio wedi bod ar gau ers mis Medi a gofynnir i’r Clerc gysylltu â Mr Ian Macken am gadarnhad o’r sefyllfa, beth sy’n digwydd am y ffioedd sydd wedi’u talu i ddefnyddio pwll Tregaron, sut mae derbyn ad-daliad o’r ffioedd sydd wedi’u talu a pryd mae’r pwll yn mynd i ail-agor.
- [DATGAN DIDDORDEB :- Cyng Arwel Jones](#)**

TERFYNWYD Y PWYLLGOR

CADEIRYDD